SGWAD SAFIO DYLAN

DYLAN'S SAVING SQUAD

Adnoddau Sgwad Safio Dylan

# Prosiect cardiau cyfarch
# Canllaw i athrawon



Mae'r prosiect hwn yn galluogi'r dysgwyr i roi'r sgiliau a'r wybodaeth maen nhw wedi eu harchwilio drwy'r rhaglen hon ar waith.

Bydd y dysgwyr yn creu cardiau y gellir eu gwerthu yn ddamcaniaethol i ffrindiau a theulu neu y gellir eu gwerthu mewn ffair ysgol.

Cyflwynwyd gan:

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

# Paratoi ac adnoddau

Bydd angen i chi wneud penderfyniadau prosiect a chasglu'r adnoddau angenrheidiol.

## Creu'r cardiau

Gallech ddefnyddio un o dri dull i gynhyrchu'r cardiau.

### Cardiau rhad

Gallech chi greu cerdyn A4 syml wedi'i blygu, a gall y dysgwyr dynnu llun, peintio neu greu gludwaith arno. Os oes angen, gallech chi ychwanegu rhywfaint o werth at y cardiau trwy brynu amlenni A5.

### Cardiau crefft

Gallech chi brynu cardiau plaen ac amlenni i ddysgwyr eu haddurno. Byddai mwy o sylwedd i hyn i gyfiawnhau eu gwerthu mewn ffair ysgol, er enghraifft.

### Pecynnau cardiau wedi'u hargraffu

Gallech chi greu pecynnau o gardiau, yn cynnwys un o bob dyluniad y dysgwyr, wedi'u hargraffu'n broffesiynol. Ceir nifer o gwmnïau argraffu ar-lein y gallwch gysylltu â nhw am ddyfynbris. Fel arall, gallech chi ddefnyddio argraffydd lleol, a allai gynnig rhywfaint o gymorth i chi i sganio'r gwaith celf. Mae hyn yn cynnig y budd o sicrhau bod cardiau pob dysgwr yn cael eu gwerthu a'u dathlu, ac mae'n brosiect mwy uchelgeisiol sy'n ysbrydoli.

## Mathau o gardiau

Bydd angen i chi ystyried y thema orau ar gyfer y cardiau, ac amser y flwyddyn o bosibl.
Efallai y gall y posibiliadau canlynol eich ysbrydoli.

### Cardiau Nadolig

Mae'r Nadolig yn thema amlwg i'ch cardiau, o gofio poblogrwydd cardiau Nadolig a'r thema dymhorol o roddion elusennol. Fodd bynnag, efallai yr hoffech ystyried thema anenwadol. Hefyd, efallai na fydd amseriad y Nadolig, mor gynnar yn y flwyddyn ysgol, yn rhoi digon o amser i chi gyflawni'r gweithgareddau cyn y prosiect.

### Cardiau achlysur

Mae gan gardiau achlysur atyniad tymhorol a gallan nhw fod yn syniad gwych ar gyfer gwerthiant damcaniaethol. Ceir llawer o achlysuron y gallech eu hystyried:

- Sul y Mamau
- Sul y Tadau
- Pasg
- Dydd Santes Dwynwen
- Dydd Gŵyl Dewi

### Cardiau pen-blwydd

Syniad gwych arall ar gyfer gwerthiant damcaniaethol yw creu cardiau pen-blwydd ar gyfer aelod o staff.

### Cardiau diolch

Mae cardiau diolch yn syniad da ar gyfer unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gallai'r cardiau gynnwys gwahanol negeseuon o ddiolch, a all hefyd fod yn weithgaredd lles cadarnhaol i'r dysgwyr.

**Cerdyn cyfarch plaen**

Mae dewis creu cardiau cyfarch plaen yn cynnig nifer o fanteision. Gallwch eu gwerthu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nid oes angen argraffu unrhyw beth ar y tu mewn, a gall dysgwyr archwilio pob math o themâu a delweddau, fel:

- Anifeiliaid
- Tirluniau
- Dyluniadau blodeuol
- Celfyddyd haniaethol
- Patrymau geometrig
- Dyfyniadau ysgogol

Gallai chwiliad syml ar y rhyngrwyd gynnig y canlynol i chi, i ysbrydoli eich dysgwyr:

- Dyfyniadau i ysbrydoli
- Negeseuon o ddiolch
- Datganiadau cadarnhaol

## Gwerthu'r cardiau

Ceir nifer o opsiynau ar gyfer gwerthu'r cardiau.

**Damcaniaethol**

Nod y prosiect yw cynnig cyfle i'r dysgwyr gael profiad o weithgaredd entrepreneuraidd syml. Os byddwch yn dewis cadw'r prosiect yn syml, gallwch ofyn i'r dysgwyr gyfnewid eu cardiau, gyda rhieni neu deulu, am rywbeth heblaw arian. Gan gyfeirio yn ôl at stori Dylan, a'i gyfnewid o wên am lolipop, gall dysgwyr gytuno ar eu cyfnewid eu hunain. Fel cwtsh, gwên neu fisged, er enghraifft.

**Ffair ysgol**

Os byddwch yn dewis creu cardiau crefft, gan ddefnyddio cardiau plaen ac amlenni, efallai mai ffair ysgol fydd y lle gorau i werthu eich cardiau.

**Ffurflen archeb i rieni**

Os byddwch yn dewis creu pecyn o gardiau wedi'u hargraffu, ffurflenni archeb i rieni fydd eich ffordd orau o werthu. Gallwch chi dderbyn archebion cyn argraffu, i osgoi stoc ormodol. Gallwch chi hefyd gynnwys y dysgwyr yn y broses werthu trwy eu hanfon adref gyda ffurflen archeb.

## Elw

Bydd angen i chi benderfynu sut y bydd unrhyw elw yn cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, gweithgaredd codi arian yn yr ysgol neu gyfraniad at daith ysgol neu barti.

## Adnoddau

Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch:

- Cerdyn A4, cardiau plaen neu bapur o ansawdd da.
- Unrhyw ddeunyddiau celf angenrheidiol fel:
    - Paent a brwsys
    - Papur lliw ac ychwanegiadau ar gyfer gludwaith
    - Pennau neu bensiliau lliw

# Y prosiect

Yn dilyn stori Dylan, trafodwch gyda'r dosbarth y syniad o ennill arian trwy werthu rhywbeth yr ydych wedi ei greu. Lluniwch fap meddwl dosbarth yn cynnwys syniadau sy'n deillio o'r cwestiynau canlynol.

**Pa bethau y gellir eu gwneud a'u gwerthu?**

- Dodrefn
- Tyfu llysiau
- Barddoniaeth
- Straeon
- Cardiau cyfarch
- Addurniadau
- Tlysau
- Paentiadau

**Pa rai o'r pethau hyn allem ni eu gwneud?**

- Dawn
- Amser
- Adnoddau
- Atyniad plentyn

Cyflwynwch y syniad o gardiau cyfarch a'ch dewis o thema i'r dosbarth.

## Cynnyrch - sut byddwn ni'n gwneud y cardiau?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddod ag enghreifftiau o gardiau i mewn y gallai fod ganddyn nhw gartref. Fel arall, gallech ganiatáu i'r dysgwyr chwilio am gardiau ar-lein i gael ysbrydoliaeth, neu gallech roi enghreifftiau iddyn nhw. Gan ystyried y dull yr ydych wedi ei ddewis ar gyfer creu'r cardiau, sicrhewch eich bod yn rhoi unrhyw arweiniad sydd ei angen ar y dysgwyr i ddylunio'r cardiau. Er enghraifft:

- Maint
- Testun
- Cryfder
- Ansawdd
- Themâu
- Lliwiau

## Gwerthu - sut byddwn ni'n gwerthu'r cardiau?

Pa bynnag ddull gwerthu y byddwch yn ei ddewis, ceisiwch gynnwys y dysgwyr yn y broses o werthu. Ceir nifer o ffyrdd y gallech wneud hyn:

- Gweithio ar stondin y ffair ysgol
- Helpu i lunio'r ffurflen archeb

## Pris - faint fyddwn ni'n ei godi am y cardiau?

Gan ystyried y dyfynbrisiau yr ydych wedi eu derbyn, a thybio niferoedd bach at y diben o brisio, rhowch y gost fesul cerdyn neu becyn i'r dosbarth. Llywiwch y dysgwyr i feddwl eu bod wedi helpu i osod y pris ar gyfer eu cynnyrch. Gallwch ymhelaethu ar hyn trwy ganiatáu i'r dysgwyr edrych ar brisiau cardiau ar-lein, neu drwy ddarparu enghreifftiau wedi'u hargraffu. Ceisiwch gynnwys y dysgwyr yn y penderfyniadau am wario eu helw ac wrth gyfrifo'r elw.

## Marchnata - sut byddwn ni'n annog pobl i brynu ein cardiau?

Sut byddwch chi'n annog cwsmeriaid i brynu? Dylech gynnwys y dysgwyr drwy archwilio'r canlynol:

- Creu taflenni i gyd-fynd â'u ffurflenni archeb
- Creu posteri, yn hyrwyddo'r cardiau, i'w harddangos yn yr ysgol neu mewn busnesau lleol
- Creu arwyddion stondin a thocynnau pris ar gyfer y ffair ysgol

Hwyluswch drafodaeth ddosbarth, gan ysgrifennu syniadau ar y bwrdd, i ennyn syniadau pam byddai pobl yn prynu eu cardiau, er enghraifft:

- Oherwydd bod angen cardiau arnyn nhw
- I annog y plant
- I'w hanfon at deulu sy'n byw i ffwrdd
- I gefnogi'r ysgol
- Fel cofroddion i ffrindiau a theulu
- Oherwydd eu bod yn hoffi'r ffordd y maen nhw'n edrych

Ar sail y syniadau, gwnewch benderfyniad dosbarth am yr wybodaeth y gellid ei chynnwys yn eu deunydd marchnata. Er enghraifft:

- Mae ein cardiau yn edrych
    - Yn ffasiynol
    - Yn cŵl
    - Yn bert
    - O ansawdd da
- Cefnogi plant lleol ac ysgol leol
- Cadw trysor o'ch plentyn
- Buddsoddi mewn artist yn y dyfodol
- Gellir defnyddio ein cardiau
    - I godi calonnau pobl
    - I'w hanfon at ffrindiau a theulu sy'n byw i ffwrdd
    - I ddweud 'Nadolig Llawen', 'Pasg Hapus, ac ati.

